
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 952 (Cy. 217)

**LANDLORD A THENANT,
CYMRU**

**Rheoliadau Tenantiaethau Busnes
(Estyn Gwarchodaeth rhag
Fforffediad etc.) (Cymru)
(Coronafeirws) (Rhif 3) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 (“y Ddeddf”) yn sicrhau na chaniateir gorfodi aillfynediad neu fforffediad am beidio â thalu rhent mewn perthynas â thenantiaethau busnes perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol (“relevant period”). Mae adran 82(12) o'r Ddeddf yn diffinio'r “relevant period” fel cyfnod sy'n dechrau â 26 Mawrth 2020, ac sy'n gorffen â 30 Mehefin 2020 neu ar unrhyw ddyddiad diweddarach a bennir mewn rheoliadau a wneir gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol.

Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol o ran Cymru.

Estynnodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 (O.S. 2020/606 (Cy. 140)) y cyfnod perthnasol hyd 30 Medi 2020.

Estynnodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/960 (Cy. 214)) y cyfnod perthnasol ymhellach hyd 31 Rhagfyr 2020.

Estynnodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/1456 (Cy. 314)) y cyfnod perthnasol ymhellach hyd 31 Mawrth 2021.

Estynnodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 (O.S. 2021/253 (Cy. 66)) y cyfnod perthnasol ymhellach hyd 30 Mehefin 2021.

Estynnodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021 (O.S. 2021/759 (Cy. 186)) y cyfnod perthnasol ymhellach hyd 30 Medi 2021.

O ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, mae'r moratoriwm a ddarperir gan adran 82 o'r Ddeddf wedi ei estyn ymhellach hyd 25 Mawrth 2022.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn estyn y cyfnod perthnasol hyd 25 Mawrth 2022.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 952 (Cy. 217)

**LANDLORD A THENANT,
CYMRU**

**Rheoliadau Tenantiaethau Busnes
(Estyn Gwarchodaeth rhag
Fforffediad etc.) (Cymru)
(Coronafeirws) (Rhif 3) 2021**

Gwnaed 23 Awst 2021

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru 26 Awst 2021

Yn dod i rym 30 Medi 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 82(12) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(1).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Medi 2021.

Estyn y cyfnod perthnasol sy'n darparu gwarchodaeth rhag fforffediad etc.

2. At ddibenion adran 82 (tenantiaethau busnes yng Nghymru a Lloegr: gwarchodaeth rhag fforffediad etc.) o Ddeddf y Coronafeirws 2020, mae'r "relevant period", fel y'i diffinnir yn is-adran (12) o'r adran honno yn gorffen, o ran Cymru, â 25 Mawrth 2022.

(1) 2020 p. 7.

Dirymu

3. Mae Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021⁽¹⁾ wedi eu dirymu.

Vaughan Gething

Gweinidog yr Economi, un o Weinidogion Cymru
23 Awst 2021

⁽¹⁾ O.S. 2021/759 (Cy. 186).